Adnodd 8a.

# Storïau Byrion

Mae Sorina, Amy a Bethan yn ffrindiau gorau. Mae Sorina'n teimlo dan bwysau i anfon hun-luniau hanner noeth at y bechgyn yn ei dosbarth oherwydd bod Amy a Bethan wedi gwneud hyn yn barod. Mae eisiau bod mor boblogaidd â nhw.

Beth wnaeth Sorina?
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?

Roedd Chwka wedi dychryn pan wnaeth ei ffrind anfon llun hanner noeth o ferch yn yr ysgol ato. Mae'n penderfynu gofyn i'w athro beth ddylai wneud oherwydd ei fod yn amau y gall fynd i drwbl.

Beth wnaeth Chwka?
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?

HEDDLU POLICE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Penderfynodd Ceri bostio neges rywiol ar Twitter. Roedd eisiau gadael i bawb wybod ei fod ar gael ers iddo orffen gyda'i gariad.

Beth wnaeth Ceri?
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?

HEDDLU POLICE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mi wnaeth Rhydian anfon hun-lun noeth o'i hun at ei gariad o'r enw Mark. Ychydig o wythnosau yn ddiweddarach roedd Rhydian yn anhapus gyda'r berthynas ac roedd eisiau gorffen efo Mark. Mae Mark wedi bygwth anfon y llun at ei holl ffrindiau ar Facebook os nad ydyw'n aros gydag ef.

Beth wnaeth Rhydian?
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?

HEDDLU POLICE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Roedd Jodie yn sgwrsio gyda grŵp o ffrindiau o'r ysgol gan ddefnyddio gwe-gamera yn ei llofft. Roedd yn paratoi i fynd i'r gwely ac yn ddamweiniol mi wnaeth ddangos rhan o'i chorff ar y gwe-gamera.

Beth wnaeth Jodie?
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?

HEDDLU POLICE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae Jane yn 15oed ac mae ganddi gariad o'r enw Kyle sy'n 18oed. Mae'n anfon lluniau anweddus ohono'i hun ati. Mae hi wedi anfon llun hanner noeth o'i hun ato 'ar gyfer ei lygaid ef yn unig' oherwydd mae eisiau sicrhau bod ganddo dal ddiddordeb ynddi.

Beth wnaeth Jane?
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?

HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae Hannah newydd symud i ysgol arall. Mae'n teimlo fel bod rhaid iddi greu argraff ar ei ffrindiau newydd ac mae'n tynnu hun-luniau anweddus ohoni'i hun i'w hanfon at ei ffrindiau newydd.

Beth wnaeth Hannah
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?

HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mi wnaeth Mark lawrlwytho ap newydd ar ei ffôn. Roedd yn caniatáu iddo anfon lluniau a fyddai'n diflannu ar ôl ychydig o eiliadau. Penderfynodd Mark anfon llun noeth i'w gariad gan feddwl na fyddai unrhyw un arall byth yn ei weld.

Beth wnaeth Mark?
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?

Mae Kyra a Tom wedi bod yn gweld ei gilydd ers dros flwyddyn ac maent mewn cariad. Maent eisiau mynd â'r berthynas i'r lefel nesaf ac mae'r ddau ohonynt wedi cytuno i anfon lluniau rhywiol i'w gilydd.

Beth wnaeth Kyra a Tom?
A oedd yn ddewis da neu'n ddewis gwael?
Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd nesaf?